y GOLEUAD
EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

yn calonogi
yn ysbrydoli
yn adeiladu

CYFROL CXLVI RHIF 27 DYDD GWENER, GORFFENNAF 6, 2018 Pris 50c

Croeso i'r Gymanfa Gyffredinol

Capel y Groes, Wrecsam – 9-11 Gorffennaf, 2018

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf yr ydym wedi gwneud ymdrech i geisio sicrhau fod y Gymanfa Gyffredinol yn ymweld â gwahanol ardaloedd yng Nghymru, yn y gobaith y bydd hyn yn hybu perchnogaeth ag ymwybyddiaeth o waith ein henwad yn genedlaethol.

Eleni, ar gais ein Llywydd presennol, y Parch. Brian Huw Jones, yr ydym yn cyfarfod yng Nghapel y Groes, Wrecsam.

Yn naturiol, yr ydym yn ddyledus i swyddogion yr eglwys am eu parodrwydd i ganiatáu defnydd o'r adeilad, ac yn edrych ymlaen at fod yn un o'n hadeiladau mwyaf newydd.

Parchgn Meirion Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol a Brian Huw Jones, Rhuddlan, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol

Diwedd a Dechrau

Mae'r Gymanfa yn arwyddo diwedd blwyddyn ein Llywydd, ac yn gychwyn ar dymor newydd. Mi fydd y Parch Brian Huw Jones yn cyflwyno ei anerchiad wrth ymadael â'r gadair nos Fawrth am 7.30 y.h., ac ar yr un pryd yn arwisgo ein Llywydd newydd, y Parch Brian Matthews. Gweddïwch dros y ddau wrth iddynt baratoi at y tridiau.

Gwahoddiad

O ran yr oedfaon cyhoeddus eraill, mi fydd yna oedfa Gymun a Choffâd nos Lun pryd daw'r Parch Ian Sims i bregethu'r Gair. Fore Mawrth, am 11.45, cynhelir y Ddarlith Davies, gyda'r Parch Wyn Morris yn mynd a ni fyd *'Rhamantiaeth Hanesyddol a Gwleidyddiaeth Eglwysig yng Nghymru'r 19eg.Ganrif'.*

Yna am 11.45 fore Mercher, mi fydd Dr Gethin Matthews yn cyflwyno darlith y Gymdeithas Hanes – *Angels, Doves and Minerva: Reading the memorials to the Great War in Welsh Presbyterian chapels*. Yn ychwanegol eleni, ac yn dilyn marwolaeth y Dr Billy Graham, mi fydd un o'i gyd-weithwyr ac un sydd wedi pregethu yn y Gymanfa yn y gorffennol, y Parch Dr Robert Cunville, yn dod i siarad am '*Gymeriad a chyfraniad Billy Graham*',

Parch Ddr. Robert Cunville
Llun trwy ganiatâd United Bible Societies

brynhawn Mawrth am 3.00. Mae'n siŵr y bydd i chwi weddïo dros bob un o'r rhain, a gweddïo hefyd dros y Parch Llunos Gordon, Caplan y Gymanfa eleni.

Materion dan sylw

O ran y prif faterion sydd i'w trafod mi fydd argymhelliad i roi mwy o fanylder yn y Llawlyfr Trefn a Rheolau wrth ystyried cyfrifoldebau Henaduriaethau, Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr ag adran ar 'Neilltuo i weinidogaeth'. Mi fyddwn hefyd yn ystyried sut mae ymateb i'r adroddiad ariannol blynyddol, ymateb i'r rheolau newydd ar ddiogelu data personol, yn cael clywed am waith ein Canolfannau, ac am gynlluniau gweinidogaeth a chenhadaeth ein Henaduriaethau. Cofiwch fod gwahoddiad i bob gweinidog a blaenor i bob un o'r sesiynau, a gwahoddiad i unrhyw un i'r oedfaon cyhoeddus.

Parch Meirion Morris,
Ysgrifennydd Cyffredinol

CYFARFODYDD CYHOEDDUS – 9-11 Gorffennaf, Capel y Groes, Wrecsam

Nos Lun, 9 Gorffennaf
7.30 pm
GWASANAETH CYMUN A CHOFFÂD
I Bregethu: Parchg. Ian Sims, BA, Llanelli

Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf
11.45 am
Y DDARLITH DAVIES
Darlithydd: Parchg. Wyn Rhys Morris, BA, BD, Aberystwyth
Testun:
'Rhamantiaeth Hanesyddol a Gwleidyddiaeth Eglwysig yng Nghymru'r 19fed. Ganrif'

7.30 pm
ARAITH YMADAWOL Y LLYWYDD
Y Parchg. Brian Huw Jones, BAdd, BTh, Prestatyn
TROSGLWYDDO'R LLYWYDDIAETH
Y Parchg. Brian Matthews, BD, Wrecsam

Dydd Mercher, 11 Gorffennaf
11.45 am
DARLITH Y GYMDEITHAS HANES
Darlithydd: Dr Gethin H. Matthews
Testun:
'Angels, Doves and Minerva: Reading the memorials to the Great War in Welsh Presbyterian chapels'

YR HOLL GYFARFODYDD I'W CYNNAL YN Y GYMRAEG HEBLAW AM DDARLITH Y GYMDEITHAS HANES
BYDD Y CYFARFODYDD CYHOEDDUS I'W GWELD YN FYW AR DUDALEN FACEBOOK EBC

Penblwydd hapus GIG yn 70 … t. 2 • **Y Silff Lyfrau** … t. 7 • **Penblwydd hapus y Weinidogaeth Iacháu** … t. 8